

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
[Â rhybudd]
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
VIP Dental Practice,
Y Bont-faen
1 Medi 2014**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Rhagymadrodd.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	7
	Profiad y Claf.....	7
	Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

1. Rhagymadrodd

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd o VIP Dental Centre, 63, Stryd Fawr, Y Bont-faen, Bro Morgannwg, CF71 7AF (sy'n ffurfio rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro), ar y 1^{af} o Fedi, 2014.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd a ganlyn:

- Profiad cleifion
- Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Ansawdd yr Amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Yn ystod yr arolygiad, adolygasom ddogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, yn cynnwys:

- Gwybodaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweiliadau ag aelodau staff, yn cynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis; y cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis

¹Daeth 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' i rym ar y 1^{af} o Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

Ar ddiwedd pob arolygiad, darparwn drosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau'u bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Manylir ar unrhyw ganfyddiadau o'r fath, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Gofynnir i'r sawl a ddarlleno'r adroddiadau hyn ystyried bod arolygiadau deintyddol yn rhoi ciplun o'r safonau a gyflenwir yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae VIP Dental Centre yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG ac i gleifion preifat yn ardal Y Bont-faen. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys 1 prif ddeintydd ac 1 deintydd cyswllt; 1 hylenydd deintyddol; 1 derbynydd; 3 nyrs ddeintyddol a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Addysg iechyd y geg
- Archwilio iechyd y geg
- Triniaethau ataliol
- Triniaethau arferol ac adferol uwch
- Triniaethau Periodontol/Y Deintgig
- Cael gwared â phlac a staeniau
- Deintyddiaeth mewn Argyfwng
- Deintyddiaeth Plant
- Gosod ac atgyweirio dannedd gosod
- Pelydrau-x digidol

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae VIP Dental Practice yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Drwodd a thro, canfuom fod y ddarpariaeth o ofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael ei hategu gan ystod o systemau a phrosesau rheoli sydd wedi'u hen sefydlu a sicrhâi fod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu i gleifion yn ddiogel ac yn amserol. Dim ond yn ddiweddar iawn y cafodd y practis ei uno ag Integrated Dental Holdings² (IDH), ac roedd hi'n amlwg bod yna welliannau'n cael eu gwneud i'r systemau a'r prosesau rheoli. Roedd y broses hon o newid yn cael ei chefnogi gan reolwr pontio IDH a'u rheolwr practis profiadol.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r pwyntiau a ganlyn yn ymwneud â'r hyn a ddywedodd pobl wrthym a'r hyn a ganfuom yn yr arolygiad hwn:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch, eu bod yn teimlo bod y practis yn groesawgar a'u bod yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal.
- Dywedodd cleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth a'u gofal, a bod triniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni yn y ffordd a fwriadwyd;
- Dywedodd pump o'r chwe chlaf y siaradasom â hwy nad oeddynt yn sicr sut i wneud cwyn am eu gofal a'u triniaeth ddeintyddol. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym, fodd bynnag, y byddent yn hyderus ynglŷn â chodi materion o bryder â rheolwr y practis pe bai angen.
- Gall cleifion a staff fod yn dawel eu meddwl bod y practis yn cael ei weithredu'n dda;
- Drwodd a thro, gall cleifion a staff fod yn dawel eu meddwl bod amgylchedd y practis yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Canfuom hefyd fod angen gwella sawl agwedd o'r gwasanaeth, sef:

²Integrated Dental Holdings (IDH) yw cwmni corfforaethol deintyddol mwyaf Ewrop.

- Cynghorir y practis i wneud gwelliannau i'r arwyddion o fewn yr adeilad fel bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r toiledau'n rhwydd.
- Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn a'u bod yn cynnwys gwybodaeth foddhaol am hanesion meddygol a pham mae pelydrau-x deintyddol cleifion yn cael eu cymryd, ansawdd delweddau'r pelydrau-x hynny a'r hyn y maent yn ei ddangos.
- Argymhellwn fod ansawdd delweddau pelydrau-x yn cael ei wirio/archwilio yn rheolaidd. Gwneir hyn i sicrhau bod ansawdd delweddu pelydrau-x yn foddhaol ac er mwyn galluogi tîm y practis i ganfod gwallau cyffredin mewn delweddu deintyddol.
- Awgrymwn fod y practis fel rhan o'r gwaith adnewyddu sydd ar y gweill yn ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r preifatrwydd a ddarperir i gleifion yn yr ystafell driniaeth wrth y mur gwydr y tu ôl i'r dderbynfa. Dylid hefyd gwirio i gadarnhau bod y gwydr a ddefnyddir yn atal ymbelydredd rhag cyrraedd y dderbynfa.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Roedd cleifion a siaradodd â ni yn unfrydol eu barn eu bod yn cael eu trin â pharch gan bob un o'r staff yn y practis. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod wedi bod yn gysylltiedig â thrafodaethau ynghylch eu gofal a'u triniaeth, eu bod wedi derbyn gwybodaeth am opsiynau triniaeth amgen a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaeth sgysiau â chwe chlaf ddangos eu bod wedi'u gwneud i deimlo'n gartrefol gan dîm y practis. Roedd y practis yn gweithredu system apwyntiadau oedd yn hyblyg. Gallai cleifion fwcio apwyntiadau o flaen llaw.

Dywedodd cleifion a siaradodd â ni yn yr arolygiad hwn nad oeddynt erioed wedi cael problem wrth wneud apwyntiad yn y practis hwn. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym mai'r oedi hwyaf a gawsant cyn cael eu gweld hyd yn hyn oedd rhwng 5-10 munud ar ôl amser eu hapwyntiad.

Gwnaeth sgysiau â chleifion ynglŷn ag a oeddynt yn teimlo y rhoddwyd digon o wybodaeth iddynt am opsiynau'u triniaeth ddatgelu'u bod yn fodlon iawn â'r gwasanaethau yn VIP Dental Practice.

Darparodd y practis enghraifft o sut y maent wedi gwella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i gleifion yn seiliedig ar adborth gan gleifion. Dywedodd cleifion wrth y practis yr hoffent weld mwy o apwyntiadau ar y GIG yn y practis. Ymatebodd y practis trwy gynyddu'r ddarpariaeth o apwyntiadau ar y GIG o ran amser i lawn amser.

Fe'n hysbyswyd y byddai yna ragor o ganolbwyntio ar adborth gan gleifion yn y dyfodol agos o ganlyniad i'r uno diweddar ag Integrated Dental Holdings (IDH). Yn benodol, cadarnhaodd rheolwr pontio IDH y byddai'r practis yn parhau i asesu barn cleifion yn rheolaidd gan eu bod yn awr yn rhan o grŵp IDH. Cyflawnid hyn trwy gynnal arolwg cleifion pob chwe mis.

Gwnaeth archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a sgwrs â'r staff clinigol gadarnhau bod opsiynau triniaethau wedi'u trafod â chleifion ar ôl ymgynghoriadau. Dangosodd cofnodion hefyd y craffwyd arnynt eu bod wedi'u diweddarau ar ôl pob ymweliad, gan roi manylion y driniaeth roedd cleifion wedi'i chael, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion a gytunodd i siarad â ni yn yr arolygiad hwn ddweud nad oeddynt yn gwybod sut i wneud cŵyn nac i godi pryderon am unrhyw agwedd o'u gofal a'u triniaeth ddeintyddol. Aeth cleifion rhagddynt i

ddweud wrthym eu bod yn hyderus y gallant ganfod gwybodaeth am sut i wneud cŵyn petai angen. Canfuom hefyd fod gan y practis boster yn yr ystafell aros a roddai fanylion sut y gall claf wneud cŵyn, er nad amlygwyd hyn ac nad oedd yn hawdd ei weld.

Argymhelliad

Cynghorir y practis i wneud gwelliannau i'r arwyddion o fewn yr adeilad. Er enghraifft, fel y gall cleifion ddod o hyd i'r toiledau'n rhwydd.

Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Cafodd gofal a thriniaeth eu cynllunio a'u cyflawni yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles pobl.

Gwnaeth craffu ar sampl o bum cofnod deintyddol ddangos bod anghenion pobl yn cael eu hasesu a bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â'u cynlluniau triniaeth unigol. Cadwyd cofnodion yn y practis ar gronfa ddata gyfrifiadurol, gyda rhywfaint o wybodaeth, fel hanesion meddygol newydd neu ddiweddaedig, yn cael eu cadw ar bapur.

Canfuom le i wella o ran rhai cofnodion cleifion. Roedd yna anghysondeb o ran cofnodi hanes meddygol cychwynol cleifion; roedd rhai wedi'u cofnodi'n dda. Roedd hanes meddygol dilynol cleifion fel arfer wedi'i ddiweddarau'n dda.

Canfuom fod Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE's)³ wedi'u cofnodi'n anghyson ac nad oeddynt yn cynnwys unrhyw dystiolaeth amlwg o argymhell gofal gan hyleneidd. Roedd cynlluniau triniaeth a chaniatâd cleifion wedi'u cofnodi'n dda. Fodd bynnag, byddai'r rhain yn elwa o fwy o fanylion o'r opsiynau triniaeth a drafodwyd â'r claf.

Mewn dwy o'r pum set o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu, nid oedd yna gofnodion o hanes deintyddol neu gymdeithasol blaenorol y cleifion. Yn ychwanegol, nid oedd dwy set o gofnodion cleifion yn cynnwys tystiolaeth o'r rhesymau pam roedd pelydrau-x deintyddol wedi'u cymryd.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn, yn enwedig o ran hanesion meddygol cychwynol a diweddaedig ac y dylent gynnwys gwybodaeth foddhaol am y rhesymau pam mae pelydrau-x deintyddol cleifion yn cael eu cymryd. Dylai'r practis hefyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys tystiolaeth foddhaol o'r

³Archwiliad clinigol o'r deintygig yw archwiliad periodontol. Mae'r BPE yn offer sgrinio a ddefnyddir i gael bras ddarlun yn gyflym o gyflwr periodontol ac anghenion triniaeth unigolyn. Mae cofnodi'r BPE yn rheolaidd yn galluogi triniaeth a ddynodir i gael ei theilwra'n benodol i anghenion claf ac er mwyn i iechyd deintygig dilynol gael ei adolygu a'i fonitro.

***cyfiawnhad dros y radiograffau, yn ogystal ag adroddiad ar
ansawdd pob un radiograff ac o'r canfyddiadau clinigol
cysylltiedig.***

***Yn ychwanegol, argymhellir yn gryf y gwneir archwiliad
rheolaidd o ansawdd radiograffig.***

Canfuom fod trefniadau'r practis o ran y defnydd o gyfarpar pelydr-x yn cyd-fynd â Safonau a Rheoliadau⁴ presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau ar hyfforddiant ar gyfer pob aelod priodol o'r staff, yn cynnwys deintyddion.

Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai dau o'r staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf yn ystod y tri mis nesaf. Dywedwyd wrthym hefyd fod yna bob amser aelod o staff yn gweithio yn y practis sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio cymorth cyntaf.

Roedd y practis newydd gael cyfarpar dadebru newydd a ddarparwyd gan IDH, ac roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag achosion brys; cyfarpar dadebru fel ocsigen cludadwy a llwybrau anadlu ar gael i'w defnyddio. Datgelodd archwiliad o sut y cedwid cyffuriau i'w defnyddio mewn achos brys yn y practis eu bod yn cael eu storio'n ddiogel. Canfuom hefyd fod yna drefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau yr oedd eu dyddiad wedi dod i ben yn cael eu disodli'n brydlon. Roedd y ddarpariaeth o gyfarpar meddygol brys newydd (yn cynnwys diffibriliwr), cyffuriau a phrotocolau safonau cysylltiedig gan IDH yn drawiadol.

Datgelodd craffu ar y gweithdrefnau oedd ar waith yn ymwneud â dadheintio offer fod yna fesurau a gwiriadau priodol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys dulliau ardderchog o lanhau cyn sterileiddio, o storio offer a'r ffordd roedd staff yn cludo offer oedd wedi'u defnyddio rhwng deintyddfeydd (ystafelloedd trin cleifion) a'r ystafell ddadheintio.

Gwnaeth arsylwi ar amgylchedd y practis ddatgelu rhagor fod yna gyfleusterau golchi dwylo penodedig mewn mannau allweddol o adeilad y practis. Gwnaeth sgwrsio â rheolwr y practis arwain at gadarnhau bod y practis yn cwblhau archwiliadau blynyddol (gwiriadau) yn gysylltiedig â gofynion rheoli heintiau, yn

⁴ Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999; a Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IR(ME)R)

unol â'r ddogfen o'r enw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)⁵

Canfuom hefyd fod y practis yn ddiweddar wedi newid eu darparwr gwasanaethau a bod ganddynt contract newydd ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin a'i drafod, ei storio a'i waredu'n gywir.

Yn ystod ymweliad yr arolygiad, gwnaethom ystyried a oedd y cyfleusterau clinigol oedd ar gael yn y practis yn cydymffurfio â safonau cyfredol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru – fel a amlinellir yn y ddogfen dan y teitl 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2010'⁶. Gwnaeth ein harsylwadau gadarnhau bod y practis yn bodloni'r safonau, fel sy'n ofynnol.

⁵<http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=en>. Mae dogfen WHTM 01-5 yn darparu canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁶<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/standards-for-health-services-in-wales-s>. Caiff y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru eu tanategu gan ganllawiau ategol. Gellir canfod canllawiau penodol ar bob un safon unigol (1 – 26) yn y ddogfen hon.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gall cleifion a staff fod yn dawel eu meddwl bod y practis yn cael ei redeg yn dda.

Mae yna reolwr practis profiadol yn gyfrifol am weithrediad beunyddiol y practis, ac ar ôl yr uno diweddar ag Integrated Dental Holdings (IDH), mae'r practis yn cael cefnogaeth rheolwr pontio am gyfnod dros dro i sicrhau bod yna bontio didor.

Drwodd a thro, canfuom fod y practis yn cael ei weithredu'n dda, gan fod y gwasanaeth yn cael ei danategu gan ystod o systemau rheoli a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn brydlon. Canfuom hefyd fod y tîm staff wedi'i hen sefydlu.

Gwnaeth staff gweinyddol a nyrsio y siaradasom â hwy ddweud wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod nhw, ynghyd â deintyddion a rheolwr y practis, wedi mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd lle mae ganddynt gyfleoedd i godi unrhyw faterion o bryder am wasanaethau a ddarperir i gleifion. Defnyddir y cyfryw gyfarfodydd hefyd i gyfleu gwybodaeth newydd / berthnasol i'r tîm deintyddol. Nid edrychasom ar unrhyw un o'r nodiadau a gymerasid yn y digwyddiadau hynny.

Dywedwyd wrthym hefyd petai yna unrhyw ddigwyddiadau yn y practis, cânt eu trafod a chaiff gwersi'u dysgu i sicrhau na allai'r un peth ddigwydd drachefn.

Gwnaeth sgwrsio â rheolwr y practis ddangos yn rhagor bod staff yn gallu trafod materion arferion a pherfformiad â hi yn rheolaidd ac yn anffurfiol. Mae staff hefyd yn derbyn arfarniad blynyddol fel modd o ganolbwyntio ar eu perfformiad dros y flwyddyn a fu ac fel modd o ganfod anghenion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gwnaeth craffu ar ystod o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig sydd ar waith ddangos bod gan staff fodd rhwydd o gael arweiniad o ran arferion gweithio diogel. Gwnaeth sgysiau â staff hefyd fod yn fodd o wireddu'u gallu i ymfyn cyngor o ddydd i ddydd am arferion gweithio i ddiogelu cleifion a hwy'u hunain. Roedd y polisiâu y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys rheoli fersiynau a manylion o ba bryd y cytunwyd arnynt yn gychwynnol a pha bryd yr adolygwyd

hwy ar ôl hynny (i sicrhau'u bod yn cydymffurfio â chanllawiau a safonau proffesiynol cyfredol).

Canfuom fod gan VIP Dental Practice bolisi Cwynion (Pryderon) oedd yn gyson â 'Gweithio i Wella'⁷. Mae'r practis yn darparu gwybodaeth am 'Gweithio i Wella' i gleifion wrth ymateb i unrhyw bryderon neu gwynion. Gwnaeth archwiliad o gofnodion cwynion yn yr adolygiad hwn ddangos bod dull gweithredu'r practis tuag at ymdrin â chwynion yn gyson â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol cyfredol.

Datgelodd archwiliad o amrywiol dystysgrifau cynnal oedd yn y practis fod yna systemau addas a phrosesau rheoli ar waith i sicrhau bod pob cyfarpar yn cael ei archwilio yn amserol ac yn unol â gofynion gorfodol.

Gwnaeth craffu ar sampl o gofnodion diogelu rhag ymbelydredd gadarnhau bod gan y practis oruchwyliwr a chynghorwr penodol i ddiogelu rhag ymbelydredd. Canfuom hefyd fod yna gyfarwyddiadau gweithio ar waith ar gyfer diogelu cleifion a staff. Roedd hyn yn cynnwys protocolau petai yna nam ar y cyfarpar, yn ogystal â'r ddarpariaeth o ffilmiau pelydr-x gwlyb gwahanol rhag ofn y byddai'r cyfarpar digidol sy'n bodoli yn camweithio.

Ar hyn o bryd, nid yw'r practis yn defnyddio bathodynau monitro dosiau ymbelydredd personol;⁸ fodd bynnag, bydd y rhain yn cael eu darparu trwy welliannau yn y practis i sicrhau arferion gorau.

Canfuom ond tystiolaeth gyfyngedig o weithgareddau gwirio/archwilio yn gysylltiedig â delweddu pelydrau-x. Mae delweddu deintyddol yn hanfodol i ddeintyddion ar gyfer diagnosis, cynllunio triniaethau, monitro triniaethau a monitro datblygiad briwiau. Gall natur rhoi pelydrau-x y tu mewn i'r genau weithiau fod yn anodd. Mae hyn oherwydd nad yw rhai cleifion yn gallu bod yn llonydd yn hir, neu'u bod yn methu â goddef y cyfarpar deintyddol

⁷Ym mis Ebrill 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer rheoli pryderon o'r enw 'Gweithio i Wella'. Ei nod yw ei gwneud hi'n haws i gleifion a gofalwyr godi pryderon; i fod yn gysylltiedig ac i gael cefnogaeth yn ystod y broses; i gael eu trin yn agored ac yn ddidwyll; ac i gyrrff ddangos iddynt ddysgu wrth i bethau fynd o chwith neu pan fo angen i safonau wella.

⁸Mae bathodyn ffilm dos ymbelydredd yn monitro dosiau ymbelydredd pobl sy'n gweithio â deunyddiau ymbelydrol.

(angenrheidiol) yn y genau hyd yn oed am gyfnod byr. Gall hyn arwain at belydrau-x o ansawdd gwael a all greu anawsterau wrth bennu pa driniaeth i'w rhoi i gleifion.

Roedd hi'n ymddangos bod amryw o'r pelydrau-x digidol a storiwyd wedi'u crafu neu'u difrodi, gan arwain at werth diagnostig is; trafodwyd hyn - gan fod y cyfryw broblemau, er nad yn anghyffredin ar ffilmiau gwlyb, yn llai cyffredin gyda delweddau digidol. Daeth aelodau staff i'r casgliad fod rhai o'r platiau synwryddion digidol yn mynd yn hen a bod angen eu newid.

Argymhelliad

Argymhellwn fod ansawdd delweddau pelydrau-x yn cael ei wirio/archwilio'n rheolaidd. Mae hyn i sicrhau bod ansawdd delweddu pelydrau-x yn foddhaol ac i alluogi tîm y practis i nodi gwallau cyffredin mewn delweddu deintyddol.

Canfuom fod gan y practis bin sharps, a leolid mewn cwpwrdd ystafell driniaeth. Cynghorwyd y practis y dylid lleoli'r bin ar wal i sicrhau rhwyddineb mynediad gan staff y practis. Cadarnhaodd rheolwr pontio IDH y gwneid hyn cyn gynted â phosibl.

Nodwyd hefyd nad oedd pob aelod o'r staff clinigol yn gwisgo dillad clinigol wrth drin cleifion. Dylai staff clinigol wisgo dillad clinigol wrth drin cleifion a dillad awyr agored pan fyddant y tu allan i'r adeilad. Ni ddylid cymysgu'r ddau (hynny yw, trowsus awyr agored â thop clinigol) oherwydd gall hyn greu risg posib o ran hylendid.

Ansawdd yr Amgylchedd

Drwodd a thro, gall cleifion a staff fod yn dawel eu meddwl bod amgylchedd y practis yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Mae VIP Dental Practice yn bractis sefydledig, a leolir yn Y Bont-faen. Roedd lleoedd parcio ceir ar gael ar hyd y brif ffordd lle y lleolir y practis. Fodd bynnag, nid oedd yna fan parcio ar gadw na man parcio i bobl anabl yn syth y tu allan i'r practis. Mae cleifion sydd ag anawsterau symudedd yn cyrraedd adeilad y practis ar hyd ramp sefydlog sy'n arwain at y brif fynedfa. Fodd bynnag, nid oedd gan y prif ddrws i'r practis fotwm gwthio arno. Felly, ni fyddai unrhyw glaf sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu cael mynediad ar ei ben ei hun i'r adeilad. Mae'r practis yn cydnabod hyn ac mae staff y dderbynfa'n yn agor y drws i gleifion sydd angen cymorth. Lleolwyd un o'r ystafelloedd/deintyddfeydd trin cleifion ar y llawr gwaelod.

Fe'n hysbyswyd y byddai nifer o newidiadau a gwelliannau'n cael eu gwneud i amgylchedd y practis. Gwnaethom gan hynny awgrymu y gall y practis ddymuno ystyried gosod system fynediad sy'n defnyddio botwm gwthio i'r brif fynedfa i ganiatáu mynediad haws i gleifion mwy musgrell.

Roedd taith o amgylch yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal yn foddhaol yn fewnol ac yn allanol. Mae gan y practis dderbynfa ar y llawr daear, tair deintyddfa, a dau fan aros sydd wedi'u trefnu ar ddau lawr. Cadarnhaodd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad fod maint y manau aros yn briodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd. Mae gan yr ystafell driniaeth a leolir y tu ôl i'r dderbynfa lawr grisiau ffrynt gwydr ac arsylwasom ar adegau ei bod hi'n bosibl clywed triniaeth yn digwydd. Arsylwasom fod desg y dderbynfa wedi'i lleoli'n uniongyrchol y tu allan i'r ddeintyddfa hon, a phan fo cyfarpar pelydr-x yn cael ei weithredu yn yr ystafell driniaeth hon, cyfeirir hyn tuag at staff y dderbynfa. Mae'n bwysig bod y practis yn cael gwybod a yw'r ffrynt gwydr i'r ystafell driniaeth yn darparu digon o ddiogelwch i unrhyw staff yn y dderbynfa.

Argymhelliad

Gwnaethom awgrymu fod y practis fel rhan o'r gwaith adnewyddu sydd ar y gweill yn ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r preifatrwydd a ddarperir i gleifion yn yr ystafell driniaeth y tu ôl i'r dderbynfa.

Roedd manau aros, deintyddfeydd a manau cylchredeg yn lân, yn daclus ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n foddhaol. Gwelwyd fod trefniadau priodol ar waith

ar gyfer storio a chadw cofnodion papur a chofnodion electronig yn ddiogel. Cadarnhaodd trafodaeth â staff y dderbynfa fod cofnodion electronig yn cael eu hategu gan gwmni allanol oddi ar y safle ac ar y safle bob yn ail ddiwrnod.

Roedd enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion a weithiai yn y ganolfan, ynghyd â rhif cysylltu 'y tu allan i oriau', yn cael eu harddangos yn eglur i hysbysu cleifion a fynychai am driniaeth. Roedd yna ystod o daflenni a phosteri i roi gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos.

Fodd bynnag, roedd llawer o'r wybodaeth a arddangosid mewn mannau aros a choridorau a hysbysai cleifion yn wybodaeth eiriol, ac awgrymasom i reolwr y practis y gall ychwanegu gwybodaeth fwy darluniadol fod yn fuddiol i gleifion. Cytunodd rheolwr y practis i roi sylw i'r mater hwn.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwelliannau o ran profiad cleifion, cyflawni safonau gyfer gwasanaethau iechyd Cymru, rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac ansawdd yr amgylchedd. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwelliannau ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn VIP Dental Practice yn cael sylw, yn cynnwys graddfeydd amser.

Bydd y cynllun gwelliannau, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: VIP Dental Practice, Y Bont-faen

Dyddiad yr Arolygiad: 1 Medi 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
8.	Cynghorir y practis i wneud gwelliannau i'r arwyddion o fewn yr adeilad. Er enghraifft, fel bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r toiledau'n rhwydd.			
	Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
9.	Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn gyflawn, yn enwedig o ran hanesion meddygol cychwynnol a diwedddaredig, a dylent gynnwys gwybodaeth foddhaol am y rhesymau pam mae pelydrau-x deintyddol			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>cleifion yn cael eu cymryd. Dylai'r practis hefyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys tystiolaeth foddhaol o'r cyfiawnhad dros y radiograffau yn ogystal ag adroddiad ar ansawdd pob un radiograff ac o'r canfyddiadau clinigol cysylltiedig.</p> <p>Yn ychwanegol, argymhellir yn gryf y gwneir archwiliad rheolaidd o ansawdd radiograffig.</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
14.	<p>Argymhellwn fod ansawdd delweddau pelydrau-x yn cael ei wirio/archwilio'n rheolaidd. Mae hyn i sicrhau bod ansawdd delweddu pelydrau-x yn foddhaol ac i alluogi tîm y practis i ganfod gwallau cyffredin mewn delweddu deintyddol.</p>			
Ansawdd yr Amgylchedd				
15.	<p>Awgrymasom fod y practis fel rhan o'r gwaith adnewyddu sydd ar y gweill yn</p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r preifatrwydd a ddarperir i gleifion yn yr ystafell driniaeth y tu ôl i'r dderbynfa.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: